Gwasanaeth Cefnogi Cynhyrchwyr Ceredigion II

Antur Teifi
Parc Busnes Antur Teifi
Aberarad
Castellnewydd Emlyn
Gorllewin Cymru
Ffôn: 01239 710238
SA38 9DB
E-bost asadler@anturteifi.org.uk

Nid Cig Oen M&S yn unig ond Cig Oen Ceredigion!

Mae grwp o naw o ffermwr Cymreig wedi dod at ei gilydd a dyfeisio ffordd o greu cynaliadwyaeth ar gyfer eu ffermydd drwy ddarparu M&S gyda chig oen o'r ansawdd gorau o'u ffermydd yng Ngheredigion.

Gyda chefnogaeth Agrisgop (Rhaglen Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu rheolaeth i ffermwyr a'u teuluoedd) daeth y syniad i'w ffrwyth.

Mae'r grwp wedi llwyddo i ennill cytundeb gyda M&S, sydd wedi dangos ymrwymiad i'r prosiect drwy gytuno ar dâl penodedig sefydlog dros gyfnod o 6 mis, i ddarparu 250 o wyn yn wythnosol.

Mae'r cynllun yma wedi ennill sêl bendith brenhinol drwy bartneriaeth gyda'r

'Prince's Trust Cymru', sydd wedi ymrwymo i ddarparu dyfodol cynaliadwy i bobl ifanc yng Nghymru.

Dywed Sion Jenkins, un o'r ffermwyr sy'n ynghlwm â'r cynllun:

"Mae'r syniad wedi ehangu meddyliau ffermwyr ar sut i redeg busnes. Rydym yn awyddus iawn i ddatblygu ein cynnyrch yn unol â gofynion y cwmser mewn cydweithrediad â'r Princes' Trust Cymru a Marks & Spencers".

Medrwch brynu'r cig oen o ansawdd yma, wedi'i gynhyrchu yng Ngheredigion, ar silffoedd 17 o siopau Marks & Spencers drwy Gymru.

Am ragor o fanylion cysylltwch â Wendy Jenkins ar 01239 710238.

'Celtic Retail Outlet'

Yn creu cyfleoedd gwerthu i gynhyrchwyr bwyd a chrefft lleol

Bydd 'Celtic Retail Outlet' yn agor yng Nghaernarfon yn gynnar y flwyddyn nesaf. Mae Peter Gee, cynrichiolydd o 'r safle gwerthu, mewn partneriaeth â Chynllun Datblygu Cynhyrchwr Lleol a ariannir gan ALLC wedi cynnal 4 sesiwn 'Cwrdd â'r Prynwr' drwy gydol Cymru yn dethol a chwilio cynnyrch Cymreig oddi wrth gynhyrchwyr bwyd a chrefft lleol, gan obeithio eu gwerthu yng Nghaernarfon.

Cynhaliwyd digwyddiad Ceredigion yn Nhy Glyn Aeron ar 6ed o Fehefin gyda tyrfa luosog yn bresennol. Rhoddodd Mr. Gee gyflwyniad wedi ei ddilyn gydag apwyntiadau unigol . Roedd hwn yn gyfle i bob cwmni oedd yn bresennol hybu eu cynnyrch. Roedd yr adborth yn dda ac roedd Mr. Gee yn gwbl hapus gydag amrywiaeth ac ansawdd y cynnyrch oedd ar gael.

Os oes unrhyw un am ragor o fanylion am 'Celtic Retail Outlet' neu am y Cynllun Datblygu Cynhyrchwr Lleol yna cysylltwch â Llinos Price ar 01239 621828 neu e-bostiwch llprice@anturteifi.org.uk.

Newyddion Bras

Y diweddara' o'r Rhwydwaith dosbarthu bwyd lleol Ceredigion.

Mae'r Rhwdwaith yn dal yn llwyddiannus gyda 18 o gynhyrchwyr bwyd lleol ar y rhestr yn cynnig cynnyrch safonol amrwyiol, yn cynnwys hufen ia, pysgod, cig, llysiau, wyau, diodydd, cacennau a melysfwyd, salad a llenwad brechdanau, caws a chyffeithiau. Mae archebion yn cael eu derbyn dros y y ffôn yn wythnosol ar Ddydd Llun i'w dosbarthu ar Ddydd Gwener.

Am restr lawn o gynnyrch neu os am rhoi archeb, cysylltwch â Wendy Jenkins ar 01239 710238 neu e-bostiwch wjenkins@anturteifi.org.uk.

Pythefnos Bwyd Prydeinig.

22ain Medi – 7fed Hydref 2007

Pythefnos Bwyd Prydeinig yw'r dathliad mwya' o'r holl fwyd blasus a gwahanol mae Prydain yn gynhyrchu. Mae'n gyfle i hybu manwerthwyr bach, canolig a mawr, gan fod nifer ohonynt yn rhedeg hyrwyddiadau yn ystod y digwyddiad. Mae'r hyrwyddiadau hyn yn ystod 'Pythefnos Bwyd Prydeinig' wedi profi yn y gorffennol fod gan y digwyddiad effaith fawr ar yr ochr gwerthu. O ganlyniad, mae manwerthwyr sydd wedi cymryd rhan wedi cynyddu eu gwerthiant hyd at 34% y siop. Os hoffech gymryd rhan yn y digwyddiad neu os hoffech dderbyn gwybodaeth ychwanegol yna cysylltwch drwy ffonio 020 7840 9292 neu e-bostiwch info@britishfoodfortnight.co.uk

GWOBRAU BUSNES CEREDIGION BUSINESS AWARDS 2007

Bydd y 7fed Gwobrau Busnes Ceredigion yn cael ei gynnal ym Mhafiliwn Bont, Pontrhydfendigaid **Nos Fawrth 6ed Tachwedd 2007.**

Blywyddyn ar ôl blwyddyn mae'r digwyddiad yma wedi tyfu mewn poblogrwydd gyda dros 55 o fusnesau Ceredigion wedi ymgeisio mewn 8 categori llynedd. Gyda datblygiad cyffrous eleni, gallwn gynnig 10 categori gan fod noddwyr newydd gennnym. Croeso mawr i Fwrdd yr Iaith Cymraeg, Cered, Cambrian Printers, Clwb Busnes Aberystwyth a Chynnal Ceredigion.

Hefyd hoffwn ddiolch i'r Cambrian News, y prif noddwyr, am gefnogaeth blynyddol ynghyd â Antur Teifi, Cyngor Sir Ceredigion, Canolfan Bwyd Cymru, Cyllid Cymru, Banc HSBC, Busnes Rhyngwladol Cymru a Phartneriaeth Twristiaeth Canolbarth Cymru. Bydd Pugh Computers yn cynnig gwobr am y wefan orau eleni eto.

Sut mae ymgeisio?

Rydym yn gwahodd busnesau i ymgeisio drwy gysylltu â Idris Williams neu Rebecca Herbert ar 01570 423 619 neu ebostiwch diwilliams@anturteifi.org.uk rherbert@anturteifi.org.uk

Medrwch lawrlwytho y ffurflen gais yn uniongyrchol o'r we yn Gymraeg neu Saesneg o'r dudalen categoriau.

Hamperi Bwyd Lleol – yn cludo cynnyrch o'r answdd gorau i safleoedd hunan-arlwyaeth

Mae archwiliad blynyddol Menter Ansawdd Twristiaeth Ceredigion wedi dangos fod ymwelwyr i'r sir yn aml eisiau bwyd lleol ond yn ei chael yn anodd dod o hyd iddo. Mewn ymdrech i wella'r sefyllfa, mae Gwasanaeth Cefnogi Cynnyrch Ceredigion yn cyd-weithio gyda'r gwerthwyr bwyd lleol i gynnig cyfle unigryw i ymwelwyr i fwynhau hamper, yn llawn cynnyrch ffres, wedi ei gludo yn syth i ddrws eu llety gwyliau. Medrwn drefnu i'r hamperi gael eu cludo drwy ddefnyddio ein rhwydwaith dosbarthu sy'n darparu cynnyrch Ceredigion i'r sector lletygarwch o fewn y Sir. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â producersupportservice@anturteifi.org.uk neu ffoniwch 01239 710238.

Er i ni wneud ein gorau i sicrhau bod y wybodaeth yn y cylchlythyr hwn a chyhoeddiadau eraill y prosiect yn gywir, ni all prosiect Gwasanaeth Cefnogi Cynhyrchwyr Ceredigion II na'i bartneriaid dderbyn cyfrifoldeb am unrhyw wallau, hepgoriadau nac am unrhyw gamau a gymerir ar sail y wybodaeth sydd ynddynt. Nid ydym yn hyrwyddo nac yn dangos ffafriaeth at unrhyw gwmni bwyd na chrefftau y sonnir amdanynt yn y cylchlythyr. Ein nod yw cyhoeddi erthyglau sydd o ddiddordeb i'r darllenwyr. Mae croeso i chi anfon y cylchlythyr hwn at unrhyw un y gallai fod ganddynt ddiddordeb ynddo. Os hoffech ymuno â'n rhestr bostio, ffoniwch Anna Sadler ar 01239 710238.

Newyddion diweddara' wrth Jan Fenner, Cydlynydd Marchnad Ffermwyr Ceredigion.

Bydd marchnadoedd Ffermwyr yn para drwy 2007. Cynhelir cyfarfod o Gynhyrchwyr Marchnad Ffermwyr ar Ddydd Mercher, 3ydd Hydref yn swyddfeydd y Cyngor, Penmorfa, Aberaeron. Bydd eich cefnogaeth drwy fynychu'r cyfarfod yn cael ei werthfawrogi. Bydd Gwyl Fwyd a Diod Aberystwyth ar Fedi 15fed a Rhagfyr 15fed yn 'Baker Street' rhwng 10.00am a 4.00pm ac mae llefydd ar gael o hyd. Cynhelir noswaith yng nghwmni Dudley Newberry yng Ngwesty'r Conrah, Aberystwyth ar Ddydd Gwener 14eg o Fedi am 7.30pm mewn pabell grand. Pris mynediad yw £20 y person yn cynnwys swper 'gourmet' tri cwrs, cyflwyniad Dudley a cherddoriaeth gan y delynores Heledd Mitchel. (Tocynnau ar gael wrth westy'r Conrah a Chanolfan Gwybodaeth Twristiaeth Aberystwyth,) Am ragor o wybodaeth ynghlyn â'r uchod cysylltwch â Jan Fenner ar 01970 633066 neu 07773337628.

Dyddiadau i'ch dyddiadur 2007

	Medi	Hydref	Tachwedd
Gwyl Fwyd Gwylltineb go iawn	1 & 2		
Gwyl Bwyd Cymreig	1 & 2		
Gwyl Fwyd a diod	14 - 15		
Gwyl Fwyd Y Fenni	15 & 16		
Gwyl Fwyd Arberth	21 & 23		
Ffair Gynhaeaf Hwlffordd	28		
Gwyl Fwyd Llangollen		20 & 21	
Marchnad Ffermwyr	13	11	
Marchnad Ffermwyr Aberaeron	5	3	
Marchnad Ffermwyr Aberystwyth	1 & 15	6 & 20	3 & 17
Marchnad Ffermwyr Llambed	14 & 28	12 & 26	9 & 23
Ffair Aeaf Geltaidd Llandudno			21—25
Ffair Aeaf y Sioe Frenhinol			26 & 27

Am fanylion cyswllt ewch i wefan www.bwydceredigionfood.co.uk/events.